# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mr Capoulas Santos ASE
luismanuel.capoulassantos@europarl.europa.eu

26 Hydref 2012

Annwyl Luis

**Ymateb Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r adroddiadau drafft ar y cynigion i greu rheoliad ar bennu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol ac ar y cynigion ynghylch cymorth ar gyfer datblygu gwledig.**

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd eich swydd fel rapporteur ar gynigion y Comisiwn ar gyfer rheoliadau ynghylch taliadau uniongyrchol a datblygu gwledig. Ar ôl cwrdd â chi ar ein hymweliad â Brwsel ym mis Mai 2012, a mwynhau trafodaeth ddiddorol a chyffrous, fe ddarllenom y cynigion ar gyfer gwelliannau sydd wedi'u nodi yn eich adroddiadau drafft.

O gofio pwysigrwydd y cynigion hyn ar gyfer budd-ddeiliaid yng Nghymru, buom yn ymgynghori ag ystod eang o sefydliadau amgylcheddol ac amaethyddol i gael eu barn am y ddau adroddiad gan ddefnyddio'r farn honno i ddod i benderfyniad ynghylch y gwelliannau.

Rydym yn croesawu nifer helaeth o'r gwelliannau sydd yn eich adroddiadau drafft, a chredwn eu bod wedi gwella cynigion y Comisiwn. Mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol, rydym yn cefnogi'n benodol:

- Gwelliannau 50, 51 a 59 ar hawliau;
- Gwelliannau 69 a 72 ynghylch gwyrddio;
- Gwelliant 104 ar Gynllun y Ffermwyr Bach; a
- Gwelliannau 29 a 32 ynghylch y diffiniad o Ffermwr Actif.

Rydym hefyd yn cefnogi nifer o welliannau a gynigiwyd yn eich adroddiad drafft ar y rheoliad datblygu gwledig, ac, yn benodol:

- Gwelliant 9 ar goedwigaeth gystadleuol;
- Gwelliannau 41 a 42 ynghylch gwyrddio yn y rheoliad taliadau uniongyrchol; a
- Gwelliant 68 ar fesur amaeth-amgylcheddol-hinsawdd.

Fel yr amlinellwyd yn ystod ein cyfarfod ym Mrwsel, mae rhai meysydd o'r cynnig lle y byddai'n bwysig i Gymru bod y gwelliannau a gynigiwyd i'r rheoliadau yn mynd ymhellach

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA

Ffôn | Tel: 029 2089 8639
E-bost | Email: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

na'r rhai a gynigiwyd yn yr adroddiad drafft.Gan hynny, byddwn yn gofyn i Aelodau o Senedd Ewrop gefnogi gwelliannau pellach.

Hoffem ddiolch i chi a'r Pwyllgor Amaeth am eich gwaith caled hyd yma i ddatblygu a gwella'r cynigion ac, rydym yn dymuno'r gorau i chi yn y gwaith caled o ddod i gytundeb yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod yr effaith hanfodol y bydd dod i gytundeb ar y fframwaith ariannol amlflwydd yn ei chael ar y cynigion diwygio a byddwn yn parhau i alw am gynnal lefel bresennol cyllideb y PAC.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC**
Cadeirydd - Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin

## Canlyniadau i Gymru o'r Rheoliad ar Daliadau Uniongyrchol

Er ein bod yn croesawu symud tuag at ragor o hyblygrwydd, fel sy'n cael ei gynnig gan welliannau 53 a 56 yn yr adroddiad drafft, bydd ailddosbarthu taliadau uniongyrchol yn cael effaith sylweddol ar fusnes ffermydd yng Nghymru ac felly **rydym yn cefnogi unrhyw welliannau eraill a fydd yn rhoi hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau benderfynu ar ba mor gyflym y dylid newid i system sy'n seiliedig ar arwynebedd.**

Yn ogystal, er ein bod yn croesawu egwyddor gwelliant 56 i sicrhau na chaiff hawl unrhyw ffarmwr ei leihau gan fwy na 30% yn 2019, byddai'n well gennym weld amserlen hwy ar gyfer y trawsnewid. **Gan hynny, byddem yn croesawu gwelliant a fyddai'n caniatau cyfnod trawsnewid o saith mlynedd.**

Rydym yn croesawu'n gryf y gwelliannau a fyddai'n caniatáu i ffermwyr gael taliadau gwyrddio yn awtomatig os ydynt yn rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion gwyrddio sylfaenol. Rydym hefyd yn cydnabod bod yr adroddiad drafft yn ceisio gwella'r gofynion gwyrddio sydd wedi'u pennu gan y Comisiwn ond rydym yn parhau i bryderu ynghylch pa mor addas yw'r gofynion ar draws yr holl Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae rhanddeiliaid o sawl sector yng Nghymru wedi ein rhybuddio am yr effaith wrth-gynhyrchiol y gallai'r gofynion gwyrddio presennol ei chael ar amgylchedd Cymru. **Gan hynny, rydym yn croesawu gwelliannau sy'n rhoi dewis ehangach o opsiynau gwyrddio i Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau, yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol gryf ac sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn.**

Rydym yn hynod gefnogol i fesurau sy'n annog ffermwyr ifanc ond, ar ôl gwrando ar randdeiliaid yng Nghymru, credwn y dylid darparu cymorth i bob newydd-ddyfodiad i'r diwydiant, ac nid i'r rhai sydd o dan 40 oed yn unig. **Gan hynny, byddem yn croesawu gwelliannau a fyddai'n ehangu ar gylch gwaith y cynllun ffermwyr ifanc. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, rydym hefyd yn cefnogi gwelliannau 86 ac 87 a fyddai'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau ddiffinio y meini prawf ar gyfer y cynllun a blaenoriaethu pa newydd-ddyfodiaid a fyddai'n gallu cael cymorth.**

Mewn perthynas â'r hyblygrwydd rhwng colofnau, rydym yn cydnabod y gallai unrhyw ddulliau o'r fath fod yn hanfodol mewn perthynas â'r drafodaeth sy'n mynd rhagddi ynghylch y fframwaith ariannol amlflwydd, ac rydym **yn cefnogi unrhyw welliannau a fyddai'n egluro'n well bwerau Rhanbarthau i benderfynu a ydynt am ddefnyddio unrhyw ddulliau hyblygrwydd a gaiff eu cynnwys yn y rheoliad terfynol ai peidio.**

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o osod cap ar daliadau i unigolion, ond nodwyd pryder i ni ynghylch yr effaith bosibl y gallai'r cynigion capio ei chael ar sefydliadau elusennol sy'n berchen ar dir ac mai eu pwrpas elusennol yw cynnal bywyd gwyllt a chadwraeth treftadaeth. **Gan hynny, byddem yn croesawu unrhyw welliannau sy'n darparu eithriad i'r cyrff hyn.**